

Papur briffio gan NSPCC Cymru/ Cymorth i Ferched Cymru:

‘Sut ydyn ni’n sicrhau bod pob plentyn sy’n dioddef yn cael mynediad at wasanaethau cefnogi arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru?’

Pan fydd cam-drin domestig yn digwydd yn y cartref, nid tystion yn unig yw plant, maent yn ddi-doddefwyr. (Katz, 2015), (Callaghan, 2015). Mae cam-drin domestig yn creu amgylchedd trallodus, llawn straen a niwed a gall canlyniadau hirdymor y trawma hwn ymestyn i’r cyfnod fel oedolyn a gall effeithio ar blant mewn gwahanol ffyrdd. Mae ymchwil yn dangos bod 1 o bob 5 plentyn yn profi cam-drin domestig rhiant ac mae’n ymddangos bod nifer yr achosion wedi cynyddu yn ystod y cyfnod clo¹.

Ym mis Medi, daeth Cymorth i Ferched Cymru ac NSPCC Cymru at ei gilydd i gynnal bwrdd crwn rhithwir yn gofyn i weithwyr proffesiynol ac elusennau blaenllaw yng Nghymru ‘*Sut gallwn ni sicrhau bod pob plentyn sy’n dioddef yn cael mynediad at drais arbenigol yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)?*’ ac, unwaith eto, tynnu sylw at yr angen am fwy o weithredu i sicrhau bod gwasanaethau VAWDASV ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu darparu’n ddigonol ledled Cymru.

Mae’r papur briffio hwn yn ystyried y prif faterion a amlygwyd gan gyfranogwyr y bwrdd crwn a’r argymhellion yw:

Argymhellion

1. Llywodraeth Cymru a Phartneriaethau VAWDASV Rhanbarthol i flaenoriaethu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru.
2. Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau VAWDASV arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau plant a phobl ifanc.
3. Blaenoriaethu hyfforddiant i gefnogi gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda phlant i adnabod arwyddion trais a chamdriniaeth, ymateb mewn ffordd sy’n cael ei goleuo gan drawma a gwybod am y llwybrau atgyfeirio ar gyfer eu hardal leol.

Cyd-destun Polisi

Mae Cymru wedi gwneud ymrwymiad polisi clir i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae CCUHP wedi’i wreiddio yn neddfwriaeth Cymru drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae Erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn datgan bod yn rhaid i Lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais a chamdriniaeth ac Erthygl 39 ei bod yn rhaid i blant sydd wedi cael eu hesgeuluso, eu cam-drin, eu hecsbloetio, eu harteithio gael cymorth arbennig i’w helpu i wella.

Nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Deddf VAWDASV) yw gwella trefniadau i atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Er gwaethaf hyn, **rydym yn parhau i weld prinder gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant sy’n ddi-doddefwyr VAWDASV.** Mae’r gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn anghyson ac yn cael eu tanariannu, gan arwain at loteri cod post o’r gefnogaeth sydd ar gael.

Ar lefel y DU, mae'r Mesur Cam-drin Domestig yn cwblhau ei daith drwy San Steffan a dylai darpariaethau hynny fod yn sail i ymateb sy'n canolbwyntio ar y sawl sy'n dioddef cam-drin domestig. Cyn hynny, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i barhau i arwain y ffordd o ran dangos ymateb effeithiol o ran hawliau plant i bobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig.

Argymhelliad 1: Blaenoriaethu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae'r Ddeddf VAWDASV yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella trefniadau ar gyfer atal trais a chamdriniaeth ac i ddarparu cymorth i oroeswyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae Strategaeth Genedlaethol bresennol Llywodraeth Cymruⁱⁱ sy'n gweithio i gyflawni dibenion y Ddeddf yn cynnwys nifer o feysydd allweddol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys Amcan 6: *Rhoi mynediad cyfartal i oroeswyr at wasanaethau sy'n derbyn adnoddau priodol, sydd o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfder ac sy'n ymateb i rywedd ledled Cymru.* Mae'r canllawiau comisiynu sydd ynghlwm wrth y strategaeth hefyd yn datgan: *'Dylai'r gwasanaethau a gomisiynir sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr – boed yn oedolion neu'n blant – yn cael yr amddiffyniad a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt'*ⁱⁱⁱ.

Er gwaethaf hyn, **mae gwasanaethau i blant sy'n ddiodefwyr wedi cael eu hanwybyddu i raddau helaeth ac mae lleisiau plant a phobl ifanc yn dal ar goll.** Nododd adolygiad o strategaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) lleol ar gyfer 2016-21 gan NSPCC Cymru mai **dim ond tri o'r wyth strategaeth oedd yn cydnabod plant fel diodefwyr cam-drin domestig a dim ond un strategaeth a ddisgrifiodd eu gwasanaethau cefnogi ar gyfer diodefwyr sy'n blant.** Yn ogystal, ni ymgynghorwyd â phlant wrth ddatblygu'r strategaethau hyn ac nid oedd yr un o'r strategaethau yn rhoi blaenoriaeth benodol i ddatblygu na sefydlu gwasanaethau cefnogi ar gyfer plant. **Er mwyn gwireddu bwriad polisi'r Ddeddf VAWDASV, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru a Phartneriaethau VAWDASV Rhanbarthol i flaenoriaethu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc, drwy lety a chymorth yn y gymuned.**

Argymhelliad 2: Blaenoriaeth i gyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc

Bloc adeiladu allweddol i sicrhau bod pob diodefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru yn cael adnoddau priodol, gwasanaethau arbenigol o ansawdd uchel. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn 2016. Fodd bynnag, mae gwaith mapio gwasanaethau Cymorth i Ferched Cymru, yn 2019, ar gyfer plant yn cadarnhau'r angen dybryd am gyllid ac adnoddau gwell i ddiwallu anghenion^{iv}. Canfu fod y ddarpariaeth o wasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn **'gyfyngedig, yn dameidiog ac yn amrywiol iawn oherwydd, i raddau helaeth, fod cyllid yn anghynnaladwy, yn anghyson ac mewn rhai achosion, ddim yn bodoli o gwbl tuag at wasanaethau penodol arbenigol i blant a phobl ifanc'**. Mae'r diffyg ymrwymiad cyhoeddus yn cael ei ddangos gan y ffaith mai **dim ond traean o'r £1,591,942 o gyllid** ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc arbenigol a ddaeth o ffynonellau statudol. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc yn dibynnu ar gyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau^v.

Yn ystod 2018/19, **roedd yn wybodus fod 4,263 o blant a phobl ifanc yn cael mynediad at ryw fath o wasanaeth VAWDASV arbenigol yng Nghymru, o'i gymharu â'r amcangyfrif o 18,487 o blant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin mewn blwyddyn.** Felly, amcangyfrifodd Cymorth i Ferched Cymru nad oedd gan **77%** o blant a phobl ifanc y mae cam-drin yn effeithio arnynt unrhyw gefnogaeth

arbenigolⁱ. Canfu eu gwaith mapio fod gwasanaethau arbenigol yn cynnig llawer gyda staff ac adnoddau prin, ond oherwydd y diffyg, mae rhai plant a phobl ifanc yn dal i aros hyd at 12 mis am gymorth. Yn ogystal, soniodd pob gwasanaeth Cymorth i Ferched Cymru am ddiffyg cyllid fel risg i'w darpariaeth plant a phobl ifanc.

Rydym yn llwyr gefnogi argymhelliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd y dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector VAWDASV cyn diwedd tymor y Senedd hon^{vii}.

Argymhelliad 3: Blaenoriaethu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Rhaid i ymrwymiad i ymyrryd ac atal yn gynnar gynnwys rhaglen hyfforddiant ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. **Rhaid i hyfforddiant gweithwyr sector cyhoeddus sy'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fod yn flaenoriaeth.** Dylai hyfforddiant sicrhau bod hawliau'r plentyn a llais y plentyn yn cael eu hystyried a bod gweithwyr proffesiynol yn deall yr effeithiau y gall byw gyda rheolaeth orfodol eu cael ar blentyn a rhiant nad yw'n cam-drin sy'n 'ymgysylltu' â gwasanaethau. Rhaid i hyn fod yn rhan annatod o Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â gweithwyr yn y sector cyhoeddus, dylid ystyried sut y gellir cefnogi lleoliadau gofal plant preifat i ganfod arwyddion o gam-drin mewn plant; yn enwedig o ystyried bod plant ifanc iawn mewn mwy o berygl o drais a chamdriniaeth yn y cartref ac efallai mai gwarchodwyr plant neu feithrinfeydd preifat yw eu hunig gyswllt ag oedolion eraill.

I drafod hyn ymhellach, cysylltwch â:

Gwendolyn Sterk, Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu, Cymorth i Ferched Cymru
gwendolynsterk@welshwomensaid.org.uk

Vivienne Laing, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus NSPCC Cymru

Vivienne.laing@nspcc.org.uk

ⁱ <https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/pre-2013/child-abuse-neglect-uk-today> and <https://learning.nspcc.org.uk/news/2020/june/protecting-children-from-domestic-abuse-during-coronavirus>

ⁱⁱ Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016 – 2021 (2016) Llywodraeth Cymru

ⁱⁱⁱ Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV): Canllawiau ar gyfer comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru (2019) Llywodraeth Cymru

^{iv} Cymorth i Ferched Cymru, Mae Plant yn Bwysig <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Children-and-Young-People-participation-report-FINAL.pdf> 2019

^v Ibid

^{vi} Ibid

^{vii} Amlygu'r Materion: anghydraddoldeb a'r pandemig (2020) Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru